**Ymateb Estyn i'r cynnig i wella darpariaeth a meithrin gallu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar draws y fwrdeistref sirol Blaenau Gwent.**

## Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

## Crynodeb/Casgliad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig cynyddu'r capasiti ar gyfer Canolfannau Adnoddau ADY ac ASD ar draws y Fwrdeistref Sirol mewn rhai ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu a newid darpariaethau ADY mewn nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd y cynnig i gynyddu lleoedd ASD ac ADY o 61 i 86 ar draws ysgolion cynradd a chynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd o 62 i 80 lle yng Nghyfnod 1 (yn cynnwys 15 lle cyfrwng Cymraeg). Ymhellach mae'r cynigion yn cynnwys y potensial i gynyddu lleoedd gan 40 arall yng Nghyfnod 2 (yn cynnwys darpariaeth ysgol Ffydd). Daw hyn i rym mewn camau o fis Medi 2023 dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth, o leiaf, gyda'r posibilrwydd o wella mynediad at y ddarpariaeth yn y tymor byr a'r tymor canolig.

## Disgrifiad a manteision

Mae'r cyngor wedi darparu sail resymegol glir ar gyfer y cynnig. Mae wedi amlinellu'r wybodaeth mwyaf cyfredol am gapasiti pob lleoliad cynradd, uwchradd ac arbenigol. Mae'r wybodaeth yn dangos yn gyffredinol bod y lleoliadau sydd yn darapru ar hyn o bryd yn rhedeg dros gapasiti. Mae'r rhagamcanion i'r dyfodol, ar sail patrymau tueddiadau dros amser, yn dangos cynnydd yn y galw dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Byddai'r cynnydd arfaethedig yn y capasiti yn diwallu'r cynnydd mewn niferoedd. Yn ystod cam 1, mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r angen i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sirol.

Yn ogystal, mae'r cyngor yn darparu gwybodaeth amlinellol am unrhyw fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer gwella adnoddau ac addasu adeiladau cyfredol. Maent wedi'u costio yn fras mewn tabl ond gellid bod yn fwy manwl gan egluro sut daethpwyd at yr amcangyfrifon. Fodd bynnag, mae diffyg gwybodaeth fanwl am sut y cyrhaeddodd y cyngor amcangyfrifon cost ar gyfer buddsoddiad cyfalaf a gwariant refeniw cynyddol. Yn yr un modd, mae cyfeiriad at y cynnydd mewn gwariant refeniw ac effaith posibl ar recriwtio ond gallai gynnwyd mwy o wybodaeth am y ffordd bydd y cyngor yn sicrhau'r lefelau cywir o staffio dros amser. Mae'r rhagamcanion yn rhoi ystyried deg i unrhyw gostau darparu i ddisgyblion yn all-sirol ac yn yr un modd unrhyw incwm o fod yn lletya disgyblion o siroedd eraill. Mae'r rhagolygon ar gyfer costau cludiant wedi'u darparu'n briodol.

Mae'r cyngor wedi darparu disgrifiadau digon manwl o'r cynigion a'r amserlen ragamcanol ar gyfer gweithdrefnau statudol a gweithredu'r cynnig. Fodd bynnag, nid yw'n manylu ar y

camau gweithredu manwl fydd eu hangen er mwyn diwallu'r gweithredu, yn enwedig pan fo angen gweithredu ym Medi 2023.

Amlinellwyd manteision ac anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig yn briodol. Mae'r manteision yn cynnwys:

- Bydd disgyblion yn cael mynediad i ddarpariaeth addas a phriodol o fewn eu bro;
- Bydd disgyblion yn cael mynediad i ddarpariaeth addas a phriodol o ran nodweddion gwarchodedig e.e. ffydd neu iaith;
- Creu datrysiad hirdymor fydd yn trin y galw cynyddol am ddarpariaeth ADY;
- Parhad a chynaliadwyedd yn nhermau addysg leol ar gyfer disgyblion gyda ADY;
- Bydd y strwythur yn meithrin hyder a hunan-dyb mewn disgyblion, rhieni a staff;
- Opsiwn leol i ddisgyblion yn symud o ysgol brif ffrwd i ganolfannau adnoddau;
- Gostwng costau lleoliadau tu allan i'r sir ar gyfer disgyblion, tra'n sicrhau buddsoddiad lleol o fewn stad ysgolion Blaenau Gwent;
- Gwella mynediad i a chyfleusterau ar gyfer disgyblion sy'n diwallu'r meini prawf ar gyfer darpariaeth ADY ar draws y fwrdeistref sirol;
- Cynyddu capasiti a chynaliadwyedd lleoliad; a
- Gostwng amser teithio ac ôl-troed carbon ar gyfer disgyblion

Mae'r anfanteision posibl yn cynnwys:

- Pryderon posibl gan rieni yng nghyswllt lleoliad mewn Canolfannau Adnoddau a
- Gall nifer y disgyblion mewn ysgolion a ddynodwyd fel canolfannau posibl dyfu os oes unrhyw fewnfudo i'r ardal.

Mae'r cyngor wedi adnabod yn briodol yr anfanteision a'r risgiau posibl ac ymddengys eu bod wedi amlinellu rhai mesurau lliniaru priodol.

Cynhaliwyd werthusiad gan y cyngor o opsiynau posib ar gyfer diwallu'r gofynion ac mae manylion bras yn y ddogfen ymgynghori ynghŷd â chasgliadau a phenderfyniadau. Mae'n nodi rhesymau dros wrthod unrhyw gynnig a pham mae hwn yw'r cynnig a ffefrir.

Mae'r cyngor wedi rhoi ystyriaeth glir i drefniadau teithio dysgwyr o ganlyniad i'r cynnig hwn. Mae wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob disgybl fynediad teg at y polisi cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Dywed y cyngor na fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith andwyol ar drefniadau teithio disgyblion.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cyngor wedi rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynnig ar safonau; llesiant ac agweddau at ddysgu; addysgu a phrofiadau dysgu; gofal, cymorth ac arweiniad; ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae wedi dod i'r casgliad bydd y cynllun parhau i ddarparu amgylchedd dysgu ansawdd uchel i ddisgyblion ac y bydd safonau'n cael eu cynnal.

Teimlwn y gellid cryfhau'r agwedd hwn drwy ystyried y canlynol:

- Amlygu sut bydd y cyngor a'r partner gwella ysgolion yn sicrhau nad oes unrhyw effaith ar safonau'r holl ddisgyblion yn enwedig yn yr ysgolion sydd angen codi safonau

- Amlygu sut bydd y cyngor yn sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar les ac agweddau at ddysgu yn enwedig yn yr ysgolion sydd angen gwella agweddau o lesiant

- Amlygu sut mae arweinwyr yn bwriadu sicrhau'r lefelau staffio sydd eu hangen ar gyfer y cynnydd mewn capasiti ac er mwyn cynnal ansawdd y profiadau
- Amlygu sut bydd yr aelodau staff hyn yn cael eu hyfforddi'n briodol i weithio gyda charfan gymhleth o bobl ifanc yn enwedig yn yr ysgolion sydd angen gwella agweddau o addysgu
- Amlygu y modd na chaiff capasiti arwain ei effeithio'n negyddol gan y newidiadau hyn yn enwedig yn yr ysgolion sydd angen gwella agweddau o arweinyddiaeth

Yn gyffredinol, nid yw'r ddogfen yn manylu digon ar unrhyw waith neu gefnogaeth benodol fyddai'n rhaid i'r cyngor ddarparu i ysgolion unigol yn y cynllun.

Er bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth i ddisgyblion ASD neu ADY nid yw'n eglur os bydd y newidiadau yn golygu newid lleoliad i'r disgyblion presennol. Yn yr achos hwn mi fyddai angen ystyried effaith hyn ar ddisgyblion unigol a dylid amlinellu camau i liniaru unrhyw amhariadau i'w dysgu a'u lles yn ystod y cyfnod pontio.Mae'r cyngor wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac y daeth i'r casgliad na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith negyddol ar unrhyw grŵp penodol yn y gymdeithas. Darparwyd ddolen cyfredol i'r adroddiad.  Fodd bynnag, byddai'n fuddiol darparu rhagor o fanylion am y broses sicrhau ansawdd ac unrhyw fesurau penodol a gymerir i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau neu heriau posibl.

Dywed y cyngor y cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y gymuned ar gyfer y cynigion hyn a darparwyd fanylion bras o'r canfyddiadau yn y ddogfen. Nodir nad oes unrhyw effaith negyddol ragweladwy ar y gymuned o ganlyniad i'r cynnig arfaethedig.

Dywed y cyngor nad yw'n rhagweld unrhyw effaith negyddol o'r cynnig ar unrhyw ysgol leol ac i'r gwrthwyneb y byddai'n newid bositif i'r disgyblion. Ymddengys bod hwn yn ddatganiad rhesymol a theg.

Dylid ystyried hefyd y twf posibl yn nifer y disgyblion mewn ysgolion a nodwyd fel canolfannau posibl oherwydd mewnfudo i'r ardal. Dylai cynllunio ac adnoddau priodol fod ar waith i ddarparu mwy o alw heb gyfaddawdu ar ansawdd yr addysg a ddarperir.

Yn ychwanegol ac yn unol a'r cod ad-drefnu ysgolion, mae'r cyngor wedi ystyried effaith y cynnig ar gynhwysiant ac ansawdd yr amgylchedd dysgu yn briodol.